**Dyddiad cyhoeddi** Ionawr 2009

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

# Trin cefnblygiad gan ddefnddio symbylu trydanol

*Mae 'arweiniad Techlechyd' NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio symbylu trydanol yn y GIG i drin pobl sydd â chefnblygiad a achoswyd gan niwed i'r ymennydd neu linyn y cefn. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio cefnblygiad na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi'r wybodaeth lawn a chyngor i chi am y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â chefnblygiad a achoswyd gan niwed i'r ymennydd neu linyn y cefn, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Ar gyfer y fersiwn o'r driniaeth lle y mewnblannir yr electrodau, dylid cynnwys tîm gofal iechyd yn cynnwys arbenigwyr adfer wrth benderfynu pa gleifion ddylai gael y driniaeth.

### Sylwadau eraill gan NICE

Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth am gleifion a gafodd strôc.

Mae nifer o wahanol ddyfeisiau symbylu trydanol ac mae’r dechnoleg yn parhau i wella.

Roedd yn anodd iawn dod i gasgliadau o'r dystiolaeth oherwydd bod yr astudiaethau'n edrych ar ddwy ffordd wahanol o gynnal y driniaeth: naill ai defnyddio electrodau ar wyneb y croen neu ddefnyddio electrodau wedi'u mewnblannu o dan y croen.

## Trin cefnblygiad gan ddefnddio symbylu trydanol

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw ‘symbylu trydanol ymarferol ar gyfer cefnblygiad o darddiad niwrolegol canolog’.

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer trin cefnblygiad. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Cefnblygiad yw'r anallu i godi'r droed a bysedd traed yn iawn wrth gerdded. Gellir ei achosi gan gyflyrau megis strôc, parlys yr ymennydd, sclerosis ymledol neu anafiadau llinyn y cefn, ond gall ddigwydd hefyd mewn cyflyrau eraill. Mae tarddiad niwrolegol canolog yn golygu bod y cefnblygiad yn gysylltiedig â niwed neu afiechyd yr ymennydd neu linyn y cefn, yn hytrach nag anaf i'r nerfau neu'r goes.

Mae dewisiadau triniaeth yn cynnwys ffisiotherapi neu sblint pigwrn-troed i roi sefydlogrwydd a gwella osgo. Mae therapi meddygol yn cynnwys cyffuriau i ymlacio'r cyhyrau neu bigiadau botulinwm tocsin i'r cyhyrau yr effeithir arnynt fwyaf.

Yn yn y driniaeth hon, defnyddir electrodau i roi curiadau trydanol i symbylu'r nerfau er mwyn cyfangu'r cyhyrau yr effeithir arnynt. Nod y driniaeth yw gwella'r gallu i gerdded. Gellir gosod yr electrodau ar wyneb y croen neu eu mewnblannu o dan y croen.

Rhoddir electrodau wyneb y croen dros y nerf, ar arwyneb y croen. Cânt eu cysylltu drwy wifrau i symbylydd cludadwy.

Rhoddir electrodau a fewnblannir dros y nerf, o dan y croen mewn llawdriniaeth lle y caiff y claf anesthetig cyffredinol. Gellir eu cysylltu â symbylydd cludadwy naill ai drwy wifrau sy'n mynd drwy'r croen neu gellir eu mewnblannu'n llwyr o dan y croen a'u gweithredu drwy donnau radioamledd.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio’n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu ei bod yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw’r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo’n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o’i le?

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar saith astudiaeth o'r driniaeth hon. Edrychodd rhai astudiaethau ar symbylu trydanol arwyneb y croen ac edrychodd astudiaethau eraill ar symbylu trydanol y gellir ei fewnblannu.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Roedd pob un o'r astudiaethau yr edrychodd NICE arnynt yn ymwneud â chleifion a gafodd strôc.

Edrychodd un astudiaeth ar 71 o gleifion, y cafodd 36 ohonynt symbylu trydanol arwyneb y croen. Roedd y cleifion a gafodd y driniaeth yn gallu cerdded yn gyflymach na'r 35 o gleifion na chawsant y driniaeth.

Mewn astudiaeth o 111 o gleifion (y cafodd pob un ohonynt symbylu trydanol arwyneb y croen) ac astudiaeth o 29 o gleifion (y cafodd 14 ohonynt symbylu trydanol wedi'i fewnblannu), cynyddodd cyflymder cerdded y cleifion 27% yn yr astudiaeth gyntaf a 23% yn yr ail astudiaeth (mesurwyd y ddau pan oedd y claf yn defnyddio symbylu trydanol). Dangosodd astudiaeth o 111 o gleifion iddynt ddefnyddio 31% llai o ymdrech wrth gerdded ar ôl y driniaeth.

Mewn ail astudiaeth o 29 o gleifion, cafodd 14 symbylu trydanol wedi'i fewnblannu ac ni chafodd 15 unrhyw symbylu. Roedd mwy o'r cleifion a gafodd symbylu trydanol yn gallu cyflawni tasgau fel paratoi swper neu gerdded y tu allan.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd cynghorwyr mai nodau'r driniaeth yw gwella cyflymder a thechneg cerdded, lleihau'r ymdrech wrth gerdded, lleihau poen ac anghysur, lleihau nifer yr

achosion o gwympo, galluogi cleifion i ddychwelyd i'r gwaith a gwella ansawdd bywyd y claf yn gyffredinol.

## Risgiau a phroblemau posibl

Dangosodd dwy astudiaeth, yn cynnwys cyfanswm o 31 o gleifion a gafodd symbylu trydanol wedi'i fewnblannu, fod 10 claf wedi nodi cochni ar y croen ar ôl y driniaeth. Mewn un claf bu'n rhaid tynnu'r electrodau.

Mewn astudiaeth o 15 o gleifion nodwyd bod 2 glaf wedi cael haint ar y clwyf ar ôl mewnblannu'r electrodau.

Dangosodd astudiaeth o 29 o gleifion (cafodd 14 ohonynt symbylu trydanol wedi'i fewnblannu) fod un o'r dyfeisiau wedi rhoi'r gorau i weithio 10 wythnos ar ôl y driniaeth mewn un calf.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd cynghorwyr y gallai problemau posibl gynnwys risg uwch o drawiad mewn cleifion ag epilepsi, dysrefflecsia awtonomig mewn cleifion ag anafiadau llinyn y cefn, heintiau neu broblemau gyda sganiau os mewnblannwyd electrodau, mwy o wingo yn y nerfau, problemau croen neu gyhyrau, problemau a achosir gan offer gwallus, neu broblemau os yw cleifion yn feichiog neu os oes ganddynt reolydd calon.

## Rhagor o wybodaeth am gefnblygiad

Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn PALS fel arfer) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

### NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon am 'Symbylu trydanol ymarferol ar gyfer cefnblygiad o darddiad niwrolegol canolog'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael ar www.nice.org.uk/HTG178*

*Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon o gyhoeddiadau NICE (ffoniwch 0845 003 7783 neu anfonwch neges e-bost i publications@nice.org.uk a dyfynnwch y cyfeirnod N1749).*

*Rydym yn annog sefydliadau'r sector gwirfoddol a sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-7859-5
N1749 1P Ion 09

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.